## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl ar ddydd Mercher, Chwefror 23ain, 2000 am 10.00 y.b.

### PRESENNOL

Y Cynghorwyr R.W. Hughes (Is-Gadeirydd), J. Butterfield, D.W. Davies, M.Ll. Davies, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, J.R. Hughes, N.J. Hughes, G. Jones, N.H. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, G.M. Kensler (dirprwyo dros E.W. Williams), A.E. Roberts (dirprwyo dros F.D. Jones), F. Shaw, J.A. Smith, S. Thomas, W.G. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, P.O. Williams, a R.Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Pennaeth yr Adran Gyfreithiol a Gweinyddiaeth, Prif Swyddog Cynllunio (De), Prif Swyddog Cynllunio a Gorfodi, Uwch Swyddog Cynllunio (C. Bailey), Swyddog Mwynau, a Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr F.D. Jones, K.P. Stevens, ac E.W. Williams.

### 874. Y CYNGHORYDD F.D. JONES

Fe hysbyswyd bod Cadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd F.D. Jones, yn wael a'r Cynghorydd R.V. Hughes (Is-Gadeirydd) fu'n cadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb.

### 875. CYDYMDEIMLAD

Cyfeiriodd y Cadeirydd Dros Dro at Farwolaeth tad Mr. P. Durrell, y Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu economaidd, yn ddiweddar, a gofynnodd i gydymdeimlad y Pwyllgor gael ei estyn i Mr Durrell.

### 876. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cafodd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ei gyflwyno yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac sydd angen penderfynu arnynt gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *bod argymhellion y Swyddogion a gynhwysir o fewn yr adroddiad sydd wedi'i gyflwyno yn cael eu cadarnhau a rhoi caniatâd neu wrthodiadau cynllunio yn ôl y digwydd, fel sy'n gymwys o dan Orchymyn (Datblygiad Caniataëdig Cyffredinol) Cynllunio Gwlad a Thref 1995, Deddf Cynllunio a Digolledu, 1991, a Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 ac/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'r datblygiad a fwriedir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrwyd yn yr atodlen sydd wedi'i chwblhau:-*

(i) caniatad

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/1999/0898/PF | Ail-leoli y maes hoci presennol a ffurfio man â sylfaen craidd caled yn Ysgol Baratoi Howell's, Stryd y Parc, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar yr amodau newydd canlynol rhifau 3 a 4:-<br>3. Defnyddir y maes hoci a'r man wyneb caled cysylltiedig yn unig mewn cysylltiad â chwaraeon/dibenion adloniant yn ymwneud â disgyblion a staff ysgol Howell's, ond i ddim diben arall. |

RHESWM - sicrhau nad yw'r maes a'r man wynebau caled yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd yn gyffredinol a fyddai'n ymwneud ag ystyriaethau priffyrdd a mwynder ar wahân.

4. Er gwaethaf darpariaethau Atodlen 2 Gorchymyn (Datblygiad Caniataëdig Cyffredinol) Cynllunio Gwlad a Thref 1995 (neu unrhyw orchymyn yn dirymu neu ailfabwysiadu'r gorchymyn hwnnw gyda neu heb newid, ni chaniateir adeiladau neu adeileddau fel a ddisgrifir yn Nosbarth A1 Rhan 32 y Gorchymyn, neu glwydi, ffensys, waliau neu ddulliau eraill o gau i mewn a ddisgrifiwyd yn Nosbarth Rhan 2 y Gorchymyn, ar y tir sy'n destun y cais, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

03/1999/0866/PF

(Dywedodd y Cynghorydd A.J. Tobin fod iddo fuddiant o'r cais canlynol a gadawodd y Siambr pan roedd hwnnw'n cael ei ystyried).

Adeiladu estyniad llawr cyntaf a gosod blaen siop newydd yn Jades, Oak Street, Llangollen, Sir Ddinbych.

YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhif 3:-

3. Ni fydd datblygu'n digwydd nes ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r defnyddiadau bwriadedig a ddefnyddir ar gyfer wynebau allanol y waliau a tho'r datblygiad a ganiateir gan hynny, ac ni ddefnyddir defnyddiau heblaw am y rhai hynny a gymeradwywyd.

18/1999/0774/PO

Dymchwel annedd unllawr presennol a datblygu tir trwy godi annedd newydd (cais amlinellol) yn Sunnycroft, Llandyrnog, Dinbych, Sir Ddinbych.

YN AMODOL ar yr amod newydd canlynol rhif 5 a'r nodyn diwygiedig i'r ymgeisydd:-

5. Cymerwyd y cynlluniau yn dangos syniadau ar gyfer yr annedd newydd i ddibenion enghreifftiol yn unig ac nid ydynt yn ffurfio rhan o'r caniatâd hwn.

RHESWM - i osgoi amheuaeth.

Nodyn diwygiedig i'r ymgeisydd - Gyda golwg ar fanylion yr annedd bwriadedig, gofynnir i chi drafod cynlluniau manwl yr uned gyda'r Swyddog Achos cyn cyflwyno cais materion neilltuedig ffurfiol. Bydd rhoi caniatâd amlinellol yn cyfleu yn unig bod yr Awdurdod yn derbyn yr egwyddor o godi adeilad newydd a bydd rhaid i'r manylion gydymffurfio â gofynion polisi H.13 Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr.

28/1999/0801/PF

(YN AMODOL ar beidio derbyn cyflwyniadau pellach yn codi materion cynllunio nad ydynt eisoes wedi cael eu trafod yn yr adroddiad erbyn Chwefror 28ain, 2000).

(Wedi ystyried llythyr cyflwyno sylwadau ychwanegol gan G. Wynne, Plas Meifod, Henllan).

Dymchwel adeilad fferm a chodi dau annedd ac adeiladu mynediad ar gyfer cerbydau yn Lleiniau 7 a 8, Llys y Wennol, Henllan, Dinbych, Sir Ddinbych.

YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhif 3:-

3. Ni feddiennir unrhyw annedd nes bod manylion y trafod ffiniau, gan gynnwys ffensys sy'n amlinellu ffiniau, ffensys cysgodi neu waliau wedi cael eu cytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi'u cwblhau yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt.

40/1999/0926/PF

(Wedi ystyried y ffaith bod camgymeriad wedi cael ei wneud ynglyn â'r cyfrifiadau o fewn yr adroddiad - dylai canran y cynnydd fod wedi dangos 67% ac nid 40%).

Dymchwel yr annedd presennol, codi annedd newydd a gosod carthbwll yn The Anchorage, Ffordd Nant y Faenol, Bodelwyddan, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

(Dymuniad yr Aelodau canlynol oedd nodi eu bod wedi ymatal rhag pleidleisio ar y cynnig hwn: Y Cynghorwyr N. Hugh-Jones, G. Kensler, P.O. Williams, N.J. Hughes, G. Jones a M.Ll. Davies)

| | |
|---|---|
| 41/1999/0798/PF | Codi adeilad unllawr â tho ar oleddf i ddarparu safle gynadledda/derbyniadau a newidiadau i'r fynedfa gerbydau bresennol i ddarparu mynediad a mynedfa, lledu'r fynedfa gerbydau bresennol a lledu ffordd gyswllt y maes parcio mewnol presennol yn y Dinorben Arms, Bodfari, Dinbych, Sir Ddinbych. |
| 43/1999/0886/PO | Datblygu 0.04 ha o ardd gefn a chodi 1 annedd (cais amlinellol) yn 37 Purbeck Avenue, Prestatyn, Sir Ddinbych. (Pleidleisiodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones yn erbyn y cynnig hwn).<br>(Awgrymodd Aelodau ymhellach y dylid cysylltu ag Adran Priffyrdd y Sir ynglyn â darparu mesurau arafu trafnidiaeth yn Seabank Drive) |
| 43/1999/0903/PO | Datblygiad preswyl 0.025 ha o dir yn y cefn sy'n wynebu Victoria Park Avenue, ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau (cais amlinellol) yn 91 Victoria Road, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>(Mynegodd Aelodau bryderon am broblemau trafnidiaeth yn yr ardal a'r angen am well arwyddion "dim troi i'r dde" i mewn i Victoria Park Avenue) |
| 43/1999/0940/PF | (Wedi ystyried pum llythyr cyflwyno sylwadau ychwanegol oddi wrth Hallows Associates (ar ran T. Hill, Victoria Road, Prestatyn); R. Marton, 7 Aspen Grove, Bae Cinmel; C. Mangnall, 18 Llys Gregyn, Bae Cinmel; D. Wildgoose, Delfryn, Ffordd Penrhwylfa, Galltmelyd a P. Ball, Brookhouse, 11 Padern Close, Saltney, Caer).<br>Parhau i ddefnyddio gorsaf betrol ar gyfer gwerthu ac arddangos cerbydau modur yng Ngorsaf Betrol Ffrith, Victoria Road West, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar yr amodau diwygiedig canlynol rhifau 4, 5 a 7 ac amod newydd rhif 9:-<br>4. Ni chaiff ceir eu gwerthu na'u rhoi ar ddangos i'w gwerthu unrhyw le ar y safle ac eithrio y tu mewn i'r ardal a nodwyd ar y cynllun mabwysiedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar Chwefror 8fed, 2000.<br>RHESWM - er lles mwynder preswyl a gweledol a diogelwch y briffordd.<br>5. Defnyddir yr ardal a nodwyd ar gyfer parcio cerbydau staff a chwsmeriaid ar y cynllun mabwysiedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar Chwefror 8fed, 2000 yn unig i'r dibenion hynny.<br>RHESWM - er lles mwynder preswyl a gweledol a diogelwch y briffordd.<br>6. Ni fydd cyfleuster golchi ceir yn gweithredu ar ôl 1900 na chyn 0800 ar unrhyw ddiwrnod.<br>9. Darperir cyfleusterau a'u cadw o fewn y safle ar gyfer llwytho, dadlwytho, parcio cerbydau, ac er mwyn iddynt droi o amgylch, yn unol â'r cynllun diwygiedig a gyflwynwyd, gyda dyddiad stamp Chwefror 8fed, 2000.<br>RHESWM - er lles diogelwch y briffordd. |
| 43/1999/0943/PC | (Wedi ystyried llythyr cyflwyno sylwadau ychwanegol oddi wrth David Jones & Cwmni,Cyfreithwyr ar ran perchenogion Aber, Pwll y Bont, Galltmelyd).<br>Codi annedd 1 mewn nifer - newidiad i gais cynllunio cyf. 43/177/98/PF (cais ôl-weithredol) yn Ersmine, Pwll y Bont, Prestatyn, Sir Ddinbych. |

| | |
|---|---|
| 44/1999/0947/PF | (Wedi ystyried llythyr cyflwyno sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Rhuddlan).<br>Codi 6 o dai pâr ac 1 byngalo a newidiadau i'r mynediad presennol i gerbydau ar dir wrth leiniau 10 - 16 Parc Edith, Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych. |
| 45/2000/0011/PF | Dymchwel y garej bresennol a chodi estyniad deulawr â tho goleddf wrth ochr yr annedd-dy yn 64 Ffordd Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych. |
| 45/1999/0836/PF | Adnewyddu cais rhif 2/APH/300/94 sy'n cynnwys newid defnydd i gartref gofal preswyl/cartref nyrsio yn Arsyllfa, Mount Road, Llanelwy, Sir Ddinbych. |
| 46/1999/0896/PF | Adnewyddu cais rhif 2/APH/343/95 sy'n cynnwys uwchraddio'r cae pob tywydd, gosod ffens i'r cefn a llifoleuadau yn Ysgol Glan Clwyd, Ffordd Uchaf Dinbych, Llanelwy, Sir Ddinbych. |
| 46/2000/0033/PF | (Dywedodd y Cynghorydd J.A. Smith fod ganddo fuddiant o'r cais canlynol a gadawodd y Siambr pan oedd hwnnw'n cael ei ystyried).<br>(Wedi ystyried pedwar llythyr cyflwyno sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Llanelwy, Ymgynghorwyr Datblygiad Newydd, Mrs. E. Williams, The Stables, Fferm Esgobty, Llanelwy).<br>Dymchwel, ailadeiladu ac addasu rhan o'r ysgubor bresennol er mwyn adeiladu 1 annedd yn Ysgubor Esgobty, Ffordd Uchaf Dinbych, Llanelwy, Sir Ddinbych. |

(ii) Caniatâd Adeilad Rhestredig (Yn amodol ar ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 41/1999/0799/LB | Newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau yn cynnwys cael gwared â rhan o wal derfyn a gwaith cloddio i ddarparu mynediad a mynedfa newydd i gerbydau a lledu'r mynediad presennol i gerbydau yn cynnwys newidiadau i wal derfyn bresennol yn y Dinorben Arms, Bodfari, Dinbych, Sir Ddinbych. |
| 46/2000/0034/LB | (YN AMODOL ar beidio â derbyn rhagor o gyflwyniadau yn codi materion cynllunio nad ydynt wedi cael eu trafod yn yr adroddiad erbyn Chwefror 24ain, 2000).<br>(Wedi ystyried dau lythyr cyflwyno sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Llanelwy a Mrs. E. Williams, The Stables, Fferm Esgobty, Llanelwy).<br>Dymchwel, ailadeiladu ac addasu rhan o'r ysgubor bresennol i adeiladu 1 annedd yn Ysgubor Esgobty, Ffordd Uchaf Dinbych, Llanelwy, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhif 2:-<br>2. Dim ond y ffenestri a'r drysau cymeradwy a osodir. |

(iii) gwrthod

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/1999/0912/AC | Torri brigau coeden onnen sy'n plygu dros y terfyn yn 5 Rhodfa Elgwern, Dinbych, Sir Ddinbych. |
| 41/2000/0009/PS | Amrwyio amod rhif 4 caniatad cynllunio cyf. 41/908/98/PF ar gyfer cadw y cynllun ffenestr gwahanol i flaenolwg annedd a addaswyd yn ddiweddar (cais ôl-weithredol) y Ty Allan yn gyfagos i Swyddfa Bost, Bodfari, Dinbych, Sir Ddinbych. |

| | |
|---|---|
| 45/2000/0005/PC | Cadw cyntedd mynedfa flaen a ffenestri PVC ar 2 annedd a addaswyd yn ddiweddar (newidiad i ganiatâd cynllunio cyf. 45/630/99/PF) (cais ôl-weithredol) yn 36 Stryd yr Eglwys, Y Rhyl, Sir Ddinbych.<br>Am y rheswm diwygiedig canlyn rhif 1:-<br>1. Mae'r to goleddf dros do gwastad blaenorol y cyntedd ynghyd â'r ffenestri UPVC yn rhoi nodweddion nad ydynt yn gydnaws â'r eiddo hwn o'r 19eg ganrif yn groes i bolisi C3 Cynllun Lleol Bwrdeistref Rhuddlan mabwysiedig a pholisi G3 y Cynllun Strwythur Sirol Clwyd mabwysiedig: Mae'r Newid Cyntaf yn achosi niwed i gymeriad a golwg yr adeilad a'r Ardal Gadwraeth y lleolir ef ynddi. |

(b) *Er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion dylid GWRTHOD y cais canlynol am y rhesymau a nodwyd:-*

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 41/1999/0771/PO | (Wedi ystyried tri llythyr cynnig sylwadau ychwanegol oddi wrth G.M. Edwards, Fron Haul Bodfari; A.M. Roberts, Swn yr Afon, Ffordd Yr Wyddgrug, Bodfari a G. Waterfields, Warren House, Bodfari).<br>Dymchwel yr adeilad presennol a datblygu 0.08 ha o dir trwy godi ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau/cerddwyr (cais amlinellol) yn Ystafelloedd Cenhadol, Eglwys San Steffan, Bodfari, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>Cymerwyd y Penderfyniad, oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:-<br>Bernir y gall yr Ystafelloedd Cenhadol wneud cyfraniad positif at fywyd cymunedol pentref Bodfari a'r ardal gyfagos, ei fod yn gyfleuster cymunedol ac y dylid dal gafael ar y safle ar gyfer defnydd cymunedol.<br>(Gofynnodd y Cynghorwyr J. Butterfield, P.J. Douglas a K.E. Wells i gofnod gael ei wneud eu bod wedi pleidleisio dros y caniatâd). |

(c) *dylid gohirio'r ceisiadau canlynol am y rhesymau a nodwyd:-*

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 05/1999/0525/PF | (Wedi ystyried tri llythyr cyflwyno sylwadau ychwanegol oddi wrth Bennaeth y Priffyrdd; B.J. Goddard, White Gables, Glyndyfrdwy a Stevens & Cwmni, Spring House, Y Waun).<br>Codi twr telathrebu 25m mewn uchder a gosod antena sector 8m ac antena dysgl 4m 0.6 a 2 omni-antena a 3 o gabanau offer yng Ngorsaf Drosglwyddo NTL, Glyndyfrdwy, Corwen, Sir Ddinbych.<br>GOHIRIO er mwyn datrys problemau perchenogaeth. |
| 46/1999/0902/PO | (Dywedodd y Cynghorwyr N.J. Hughes a A.E. Roberts fod iddynt fuddiant o'r cais canlynol a gadawsant y Siambr pan oedd hwnnw'n cael ei ystyried).<br>(Wedi ystyried dau lythyr cynnig sylwadau ychwanegol oddi wrth Bennaeth y Priffyrdd a Grwp Gweithredu Sir Ddinbych).<br>Dymchwel yr adeilad presennol a datblygu 0.05 ha o dir trwy godi 5 annedd, adeiladu mynediad newydd i gerbydau a darparu man parcio ceir cysylltiedig (cais amlinellol) yn Y Lleng Brydeinig Frenhinol, Luke Street, Llanelwy, Sir Ddinbych.<br>GOHIRIO er mwyn caniatáu i Gyngor y Dref wneud sylwadau ar y cynlluniau diwygiedig. |

*(ch)* *dylid gohirio'r ceisiadau canlynol er mwyn galluogi ymweliadau safle i gael eu gwneud:-*

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/1999/0891/PF | (Wedi ystyried dau lythyr cynnig sylwadau ychwanegol oddi wrth Gymdeithas Ddinesig Dinbych a R. Gwyn Parry, Tan y Gaer, Stryd y Parc, Dinbych).<br>Newid defnydd tir amaethyddol i adeiladu estyniad i feysydd chwarae ysgol yn Ysgol Baratoi Howell's, Dinbych, Sir Ddinbych. |
| 40/1999/0930/PF | (Wedi ystyried llythyr cyflwyno sylwadau ychwanegol oddi wrth Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd).<br>Dymchwel yr annedd a'r adeiladau presennol a chodi annedd newydd yn Little Pengwern, Ffordd Nant y Faenol, Bodelwyddan, Y Rhyl, Sir Ddinbych. |

**877. MATERION GORFODI**

(i) ENF/271/99/S Braich Yr Alarch, Clawddnewydd

Codi estyniadau heb awdurdod i flaen a chefn yr adeilad da byw ac offer amaethyddol.

***PENDERFYNWYD*** *o ystyried bod y Pwyllgor wedi gwrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer cadw'r ddau estyniad i'r adeilad amaethyddol dylid awdurdodi Swyddogion i:-*

*(a)* *Gyflwyno Rhybudd Gorfodi er mwyn sicrhau bod y ddau estyniad heb awdurdod y gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn cael eu tynnu ymaith;*

*(b)* *Rhoi cychwyn ar achos erlyn, neu gamau cymwys eraill o dan y Ddeddf Gynllunio, os yw'r person neu bersonau y cyflwynir unrhyw Rybuddion iddynt, neu y dwynir achos cyfreithiol yn ei erbyn/eu herbyn, yn methu cydymffurfio â'r gofynion hynny, a*

*(c)* *dylid cadw (a) a (b) uchod heb eu penderfynu am chwe mis.*

(ii) ENF/245/99/S Ger Fferm Pennant Uchaf, Llandegla

Defnyddio tir amaeth heb awdurdod am fwy na 28 diwrnod am bob blwyddyn galendr ar gyfer hedfan gleiderau heb fodur trwy ddefnyddio winsh i'w cychwyn a lleoli carafan fel clwb yn gysylltiedig â hynny, a chynwysyddion storio cysylltiedig, man parcio, cyfleusterau toiled a hosan wynt.

***PENDERFYNWYD*** *o ystyried bod y Pwyllgor wedi gwrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio'r maes gleiderau, dylid awdurdodi Swyddogion i:-*

*(a)* *Gyflwyno Rhybudd Gorfodi er mwyn mynd i'r afael â thor-rheolau perthnasol y rheoli cynllunio y gwrthodwyd caniatâd cynllunio iddynt, yn cynnwys terfynu'r maes gleiderau am fwy na 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr a thynnu ymaith o'r tir yr holl eitemau cysylltiedig;*

*(b)* *Rhoi cychwyn ar achos erlyn, neu gam cymwys arall o dan y Ddeddf Gynllunio, os yw'r person neu bersonau y cyflwynir unrhyw Rybuddion iddynt, neu y dwynir achos yn ei erbyn/eu herbyn, yn methu cydymffurfio â'r gofynion hynny, a*

*(c)* *dylid cadw (a) a (b) uchod heb eu penderfynu.*

(iii) <u>ENF/414/99/N 36 Stryd ry Eglwys, Y Rhyl</u>

Diffyg cydymffurfio â rhoi caniatad cynllunio o dan Rhif côd 45/630/99/PF trwy:-

- cael gwared â simneau
- gosod ffenestri UPVC
- codi to talcen dros y cyntedd
- 2 drws mynedfa UPVC i'r cyntedd

***PENDERFYNWYD** y dylid awdurdodi Swyddogion i:-*

*(a) Gyflwyno Rhybudd Gorfodi er mwyn sicrhau cael gwared â ffenestri UPVC heb awdurdod a gosod ffenestri pren ffrâm lithro traddodiadol yn eu lle yn ôl y cynllun a ddangosir ar y cynlluniau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt o dan rhif côd 45/630/99/PF;*

*(b) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi er mwyn sicrhau gosod dwy simnai ar y prif do a newidiadau i do y cyntedd blaen er mwyn i'w gynllun a golwg gydymffurfio â'r cynlluniau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt o dan rhif côd 45/630/99/PF;*

*(c) na ddylid cymryd camau pellach ynglyn â gosod dau ddrws mynedfa plastig UPVC i'r cyntedd, ac*

*(ch) rhoi cychwyn ar achos erlyn, neu gam gymwys arall o dan y Ddeddf Gynllunio, os yw'r person neu bersonau y cyflwynir unrhyw Rybuddion iddynt, neu y dwynir achos cyfreithiol yn ei erbyn/eu herbyn, yn methu cydymffurfio â'r gofynion hynny.*

(iv) <u>ENF/432/99/N Adeilad Cyfagos i Swyddfa Bost Bodfari</u>

Diffyg cydymffurfio â rhoi Caniatad Cynllunio o dan Rhif côd 41/908/98/PF trwy osod ffenestri ffrâm crog pen ffug heb awdurdod.

***PENDERFYNWYD** y dylid caniatau awdurdod i'r canlynol:-*

*(a) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi er mwyn sicrhau cael gwared â ffenestri ffrâm crog pen ffug a gosod ffenestri ffrâm lithro pren traddodiadol yn eu lle fel a gymeradwywyd o dan Ganiatâd Cynllunio Rhif Côd 41/908/98/PF, a*

*(b) rhoi cychwyn ar achos erlyn neu gam cymwys arall o dan y Deddfau Cynllunio os yw'r person neu bersonau y cyflwynir y Rhybuddion iddynt neu y dwynir achos cyfreithiol yn ei erbyn/eu herbyn yn methu cydymffurfio â'r gofynion hynny.*

**878. <u>CAIS CYNLLUNIO I YMESTYN CHWAREL PANT DU, GER MAESHAFN, SIR DDINBYCH</u>**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd yn flaenorol yn rhoi gwybod am dderbyn Cais Cynllunio i ymestyn Chwarel Pant Du, Maeshafn ac yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried mynychu taith ymchwiliol â chyfleusterau tebyg yn y Peak District.

***PENDERFYNWYD** rhoi'r awdurdod i'r Swyddog Mwynau drefnu ymweliad safle i'r Peak District yn Swydd Derby yn amodol ar yr amodau canlynol:-*

*(a) Rhoi gwahoddiad i holl Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio;*

*(b) archwilio'r gost yn llawn;*

*(c) dylid ystyried gofyn i Grwpiau Gwleidyddol ariannu'r daith trwy gyfrwng cyllidebau hyfforddi/cynhadledd;*

*(ch) ni ddylid derbyn unrhyw letygarwch gan y cwmni sy'n gwneud cais, ac*

(d) *na fydd Aelodau yn hawlio lwfansau presenoldeb (yn amodol ar gadarnhad gan y Pwyllgor Pwerau a Phenodiadau Argyfwng os oes angen).*

**879. GORCHMYNION GWARCHOD COED**

(i) Tir yn Green Cottage, Gellifor, Rhuthun, Gorchymyn Gwarchod Coed Rhif 2/1999

Cafodd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ei gyflwyno yn gysylltiedig â'r Gorchymyn Gwarchod Coed uchod, a gyflwynwyd ar Dachwedd 30ain, 1999 i ddiogelu un goeden amlwg yn y gymdogaeth y bernid iddi fod yn agored i niwed oherwydd bod perchenogaeth yr eiddo wedi newid.

***PENDERFYNWYD** y dylai gadarnhau Gorchymyn Gwarchod Coed Cyngor Sir Ddinbych (Tir yn Green Cottage, Gellifor, Rhuthun) Rhif 2/1999.*

(ii) Tir ym Mryn Derwen, Llangynhafal, Dinbych,Gorchymyn Gwarchod Coed Rhif 3/1999

Cafodd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ei gyflwyno yn gysylltiedig â'r Gorchymyn Gwarchod Coed uchod a gyflwynwyd ar Dachwedd 30ain, 1999 i ddiogelu un goeden amlwg yn y gymdogaeth ac y bernid iddi fod yn agored i niwed oherwydd bod perchenogaeth yr eiddo wedi newid.

***PENDERFYNWYD** y dylai gadarnhau Gorchymyn Gwarchod Coed Cyngor Sir Ddinbych(Tir ym Mryn Derwen, Llangynhafal, Dinbych) Rhif 3/1999.*

(iii) Tir yng Nghae Fron Bache ger Vicarage Road, Llangollen, Gorchymyn Gwarchod Coed Rhif 4/1999

Cafodd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ei gyflwyno yn gysylltiedig â'r Gorchymyn Gwarchod Coed uchod a gyflwynwyd ar Dachwedd 30ain, 1999 i ddiogelu un goeden sy'n werthfawr o ran mwynder lleol a bernid iddi fod yn agored i niwed oherwydd ei bod o fewn ardal a ddynodwyd ar gyfer tai yng Nghynllun Lleol Glyndwr a'r cynllun Datblygu Unedol a roddir i'w ddangos.
.

***PENDERFYNWYD** y dylai gadarnhau Gorchymyn Gwarchod Coed Cyngor Sir Ddinbych(Tir yng Nghae Fron Bache ger Vicarage Road, Llangollen) Rhif 4/1999.*

(iv) Coetir yn Hafod-Y-Green, Trefnant,Gorchymyn Gwarchod Coed Rhif 5/1999

Cafodd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ei gyflwyno yn gysylltiedig â'r Gorchymyn Gwarchod Coed uchod a gyflwynwyd ar Ragfyr 8fed, 1999 i ddiogelu llecyn o goetir sy'n cyfrannu at y dirwedd leol ac y bernir iddo fod yn agored i niwed yn dilyn cyflwyno cais yn ddiweddar i lenwi'r dyffryn trwy dipio a fyddai'n dinistrio rhan fawr o'r dyffryn.

***PENDERFY**NWYD y dylai gadarnhau Gorchymyn Gwarchod Coed Cyngor Sir Ddinbych (Coetir yn Hafod-Y-Green, Trefnant), Rhif 5/1999.*

**880. DYDDIAD YR YMWELIAD SAFLE**

Cafodd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ei gyflwyno yn ceisio cymeradwyaeth am ymweliadau safle yn deillio o eitem Agenda rhif 2 i gael eu cynnal ar ddydd Iau, Mawrth 2il, 2000 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth gyfredol y Panel Ymweliad Safle.

***PENDERFYNWYD** y dylid cynnal yr ymweliadau safle cymeradwy ar ddydd Iau, Mawrth 2il, 2000.*

**881**. **<u>RHESTR Y CEISIADAU A DRAFODWYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG</u>**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig diwygiedig (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) ynglyn â cheisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo o dan awdurdod dirprwyedig rhwng Ionawr 1af, 2000 a Chwefror 4ydd, 2000.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 y.h.

*****************